No 7 Medi 2025

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Prif Gynllun Grant Gwirfoddoli Cymru

NMae Cylch Cyllido newydd wedi agor.
Nod y grant hwn ydy:

- Cynyddu ymgysylltiad a boddhad gwirfoddolwyr trwy ddileu rhwystrau i wirfoddoli ar gyfer pobl o bob oedran ac o bob rhan o'r gymdeithas.
- Cefnogi creu a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli cadarnhaol o ansawdd uchel yng Nghymru.
- Hyrwyddo newidiadau yn y sefydliadau sy'n cymryd rhan er mwyn ymgorffori gwaith gwirfoddol yn eu harferion gwaith a'u diwylliant.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gyflwyno cais: WCVA

Mae **Ymddiriedolaeth 1910** yn cyllido gweithgareddau sy'n cael effaith ar draws Rhanbarth De Cymru

## Sefydliad McCarthy-Stone – Rhaglen Grant Creu Cysylltiadau

Cyllid i greu cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon ar gyfer pobl 65 oed a hŷn, gan gynnwys:

- Gwasanaethau cyfeillio, yn cynnwys darparu prydau bwyd i bobl sy'n byw'n annibynnol
- Grwpiau cymdeithasol, megis dosbarthiadau arlunio, sesiynau dawnsio, clybiau cinio, a boreau coffi
- Trafnidiaeth gymunedol, i gysylltu pobl hŷn â gweithgareddau a gwasanaethau lleol

## Cyfleoedd Rhanbarthol

Mae **Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru** yn swyddogol wedi lansio'r Grant Gwydnwch Cymunedol – sy'n helpu sefydliadau lleol i feithrin gwydnwch, cynaliadwyedd a gwneud gwahaniaeth go iawn yn eu cymunedau. Cysylltwch â CVSC i gael rhagor o wybodaeth

### Rhaglen Fuddsoddi Canol Trefi Sir y Fflint

Cafodd Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ar gyfer busnesau a sefydliadau ar draws Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton, i wella safleoedd canol tref a chyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau bywiog. Mae'r **Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau** ar gyfer Sefydliadau a/neu fusnesau a hoffai drefnu digwyddiad. Dylai'r digwyddiad geisio cynyddu bywiogrwydd a nifer yr ymwelwyr yn un o'r saith canol tref cymwys.

## Cynllun Grantiau Diwylliant Llywodraeth Cymru

i alluogi Sefydliadau Llawr Gwlad i gyflwyno prosiectau 6 mis rhwng Hydref 2025 a Mawrth 2026 sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymru trwy weithgareddau celfyddydol a diwylliannol.

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cronfa ôl-osod ar gyfer y Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

♻️ Bydd y Gronfa'n agor ar 1 Medi.

Bydd y gronfa Gymru gyfan hon, a gyflwynir ar y cyd â Chymdeithas Adeiladu'r Principality a Sefydliad Cymunedol Cymru, yn cefnogi sefydliadau i wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau cymunedol trwy fesurau megis:

✅ Paneli solar neu bympiau gwres
✅ Inswleiddio
✅ Goleuadau sy'n arbed ynni
✅ Batris storio

Mae grantiau mawr gwerth hyd at £25,000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n gwneud adeiladau'n fwy ecogyfeillgar ac yn fwy hygyrch i grwpiau a danwasanaethir neu grwpiau agored i niwed.

Cewch ragor o wybodaeth a gwirio cymhwysedd yma:

🔗 Principality Building Society Retrofit for the Future Fund

## Grantiau Cymunedol Cerddoriaeth i Bawb

Grant gwerth hyd at £2,000 ar gyfer grwpiau, ysgolion ac unigolion yn y DU sy'n defnyddio cerddoriaeth i gefnogi cymunedau lleol. Cynigir cyllid ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â hygyrchedd, iechyd meddwl, grwpiau corawl, y blynyddoedd cynnar, a phecynnau recorder/cerddoriaeth

## Cronfa Barclays - Hyfforddwyr Benywaidd ar gyfer Merched

TCronfa sydd ar gael i bob clwb a grŵp sy'n darparu gweithgareddau pêl-droed, criced neu dennis i ferched ac sydd am weld mwy o hyfforddwyr benywaidd yn cymhwyso. Cynigir grantiau gwerth £200 ar gyfer tennis a chriced a grantiau gwerth £160 ar gyfer pêl-droed.

## Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae rhaglen **Ffocws ar y Teulu** yn cynnig grantiau i gyllido prosiectau sy'n archwilio ac yn treialu atebion ar gyfer unigolion a pherthnasau aelodau o'r lluoedd arfog neu gyn-filwyr sy'n sâl neu wedi'u hanafu.

## Cronfa Lleoedd Cynnes Cymunedol

Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ei chyllid Lleoedd Cynnes ar draws ardaloedd lleol er mwyn cefnogi mentrau cymunedol yn ystod y misoedd oer. Bydd yr arian hwn ar gael yn fuan trwy eich Awdurdod Lleol neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**